y comisiwn datblygu cynaliadwy

Cyflwyniad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru Ymgynghoriad

Chwefror 2007

1 Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

1.1 Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yw cynghorydd annibynnol y Llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy, ac mae'n atebol i Brif Weinidog Cymru, i Brif Weinidog yr Alban ac i Brif Weinidog y DU. Mae trafnidiaeth yn sector sy'n effeithio ar lawer o faterion o ran datblygu cynaliadwy gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, cynhwysiant cymdeithasol, ac iechyd. Felly, croesawn y cyfle hwn i ymateb i Strategaeth Drafnidiaeth Cymru - ymgynghoriad.

2 Cyflwyniad

2.1. Gwelodd y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy sawl elfen gadarnhaol i'r strategaeth gan gynnwys:

- Cynnal y system deithio am ddim i bobl dros 60 oed a phobl anabl
- Ystyried sut y gellir ymestyn tocynnau teithio rhad
- Adolygu'r grantiau cludo nwyddau er mwyn helpu i annog y newid o gludo nwyddau ar y ffyrdd i gludo nwyddau ar y rheilffyrdd a morgludo arfordirol
- Cynnal gwasanaethau bws pellter hir newydd
- Ailagor llinell reilffordd Bro Morgannwg

Fodd bynnag, mae pryderon gennym hefyd. Un o'n pryderon cyffredinol yw'r cyfeiriadau cyfyngedig at fframwaith cyffredin y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy, a nodau Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol a Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Theg. Er mwyn i chi allu cyfeirio atynt, darparwn y fframwaith a'r nodau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Yn sgîl hyn, er i ddealltwriaeth dda o'r agweddau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar ddatblygu cynaliadwy a thrafnidiaeth gael ei dangos yn y strategaeth, yn ogystal â sut y gellir ymdrin â'r rhain, ni osododd y rhain o fewn fframwaith priodol. Er enghraifft, ystyriwyd manteision economaidd ac effeithiau amgylcheddol ar wahân i'w gilydd. Yn ogystal, ystyriaeth gyfyngedig a roddwyd i egwyddorion datblygu cynaliadwy o ran llywodraethu da a defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol. O ganlyniad, nid yw'n glir a fydd y strategaeth yn arwain at system drafnidiaeth gynaliadwy i Gymru.

Yng ngweddill y nodyn hwn, ystyriwn dri mater allweddol. Y mater cyntaf yw p'un a yw'r strategaeth yn cyfrannu at Fyw o fewn Terfynau Amgylcheddol, yn bennaf ei chyfraniad i leihau newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn amlygu ein pryderon o ran yr angen i ystyried manteision economaidd ac effeithiau amgylcheddol o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy ehangach. Yr ail fater yw biodanwyddau a'r angen i bob effaith o ran datblygu cynaliadwy, nid dim ond lleihau carbon, gael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau polisi. Yn olaf, ystyriwn yn fyr brisio ffyrdd a'r angen i unrhyw gynllun leihau gollyngiadau.

3 Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol

3.1 Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn falch mai un o ganlyniadau allweddol y strategaeth fydd lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr gan y sector trafnidiaeth. Fodd bynnag, ceisiwn sicrwydd bod y gostyngiad hwn yn cynnwys gollyngiadau o awyrennau (domestig a rhyngwladol) yn ogystal â thrafnidiaeth ar y tir.

Yn y cyd-destun hwn, mae gennym bryderon hefyd am effeithiau'r M4 a chyflwyno'r cyswllt awyr oddi mewn i Gymru ar gyflawni'r canlyniad hwn o bosibl ac rydym yn nodi'r rhain isod.

Cynyddu capasiti yr M4 yn Ne Cymru

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn pryderu y bydd cynyddu capasiti'r M4 yn arwain at 1) mwy o draffig a gollyngiadau nwyon tŷ gwydr, ac adlewyrchir y pryder hwn yn yr Asesiad

Amgylcheddol Strategol[1] a 2) mwy o ddatblygu anghynaliadwy wrth gyffyrdd, yn enwedig o ran mynediad trafnidiaeth.

Cyswllt awyr oddi mewn i Gymru

3.2 Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn manteisio ar y cyfle hwn, unwaith eto, i fynegi ein pryder ynghylch cyflwyno'r cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn. Mae dau brif reswm:

1) Y posibilrwydd o achosi traffig

Er y bwriedir i'r cyswllt awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn fod ar raddfa fach (llai na 20,000 o deithiau'r flwyddyn a dau ehediad dwyffordd y dydd), mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn pryderu y byddai'r gwasanaeth awyr newydd, o ganlyniad i'r arbedion amser a gynigir, yn ysgogi galw a phatrymau teithio newydd, ac yn arwain at fwy o effeithiau o ran carbon ac effeithiau newid yn yr hinsawdd eraill nag a ragwelwyd yn wreiddiol o bosibl.

2) Yr anghyswllt o ran polisi

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy hefyd yn awgrymu bod anghyswllt posibl wrth agor llwybr awyr newydd ar adeg pan fo angen lleihau gollyngiadau ar raddfa fawr o'r lefel bresennol, er mwyn osgoi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd.

Nodwn hefyd nad yw'r argymhellion a nodwyd yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol :

“Dylai fod yn ofynnol o dan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru mai dim ond lle y gellir rhoi tystiolaeth nad oes atebion mwy cynaliadwy ar gael, a lle y gellir gwrthbwyso'r cynnydd net mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr drwy ostwng gollyngiadau nwyon tŷ gwydr mewn meysydd eraill o'r sector trafnidiaeth neu sectorau eraill yng Nghymru y dylid ystyried mwy o wasanaethau awyr"

wedi'u cyflawni.

4 Biodanwyddau

4.1 Mae'r strategaeth hefyd yn amlygu bod y defnydd o fiodanwyddau i ymdrin â gollyngiadau nwyon tŷ gwydr yn ffordd bwysig o leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr, ac mae'n awgrymu y byddant yn gwneud cyfraniad bach iawn i ollyngiadau carbon. Fodd bynnag, mae dadansoddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy[2] yn awgrymu amrywiaeth eang o ostyngiadau carbon posibl o fiodanwyddau a nifer o oblygiadau o ran datblygu cynaliadwy.

4.2 Felly, gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried biodanwyddau mewn cyd-destun datblygu cynaliadwy. Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi'r angen i gynyddu cyfran y biodanwyddau yn y tanwyddau a ddefnyddir yn y DU yn unol â'r cynigion presennol ar gyfer y Rhwymedigaeth Tanwyddau Trafnidiaeth Adnewyddadwy (RTFO), a dulliau eraill, ar yr amod bod tri phrif ddull diogelu ar waith:

---

[1] Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn amlygu bod "y gwaith adeiladu ffyrdd newydd ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau mawr penodol yn debygol o gael effeithiau andwyol sylweddol ar ffactorau hinsoddol oherwydd y ffaith bod ffyrdd newydd yn gallu arwain at gynnydd cyffredinol mewn lefelau traffig, a fydd yn arwain at gynnydd mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr”.

[2] Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (2006) Ymateb y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i'r Adran Drafnidiaeth ar Fiodanwyddau a'r Rhwymedigaeth Tanwyddau Trafnidiaeth Adnewyddadwy http://www.sd-commission.org.uk/publications/downloads/Biofuels_SDC.pdf

1. Mae'n rhaid i'r gweithdrefnau gwirio, sy'n ategu'r gwaith o lunio adroddiadau gorfodol a'r safonau arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r RTFO, fod yn drwyadl

2. Mae'n rhaid iddynt gwmpasu materion cymhleth megis y posibilrwydd o ddatgoedwigo a'r effeithiau ar gymdeithas

3. Dylid cynllunio'r RTFO gan gynnwys cymhellion graddedig ar gyfer tanwyddau carbon is o'r cychwyn er mwyn rhoi cymhelliant i arbed cymaint o garbon â phosibl. Gallai cynhyrchion gwastraff megis olewau llysiau, gweddillion coedwigoedd a gwastraff anifeiliaid oll chwarae rhan bwysig.

4.3 Heb y dulliau diogelu hyn, mae risg y gallai'r defnydd cynyddol o fiodanwyddau ar gyfer trafnidiaeth arwain at ollyngiadau nwyon tŷ gwydr cyfyngedig neu hyd yn oed yn fwy o gymharu â'r defnydd o danwyddau ffosil cyfatebol yn ogystal ag effeithiau cymdeithasol annerbyniol ac effeithiau amgylcheddol eraill.

5 Prisio Ffyrdd

5.1 Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn falch yr ystyrir bod gan brisio ffyrdd ran allweddol i'w chwarae ym mholisïau trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol. Ac rydym yn cydnabod, fel Llywodraeth y Cynulliad, y pwysigrwydd y caiff unrhyw grŵp cymdeithasol penodol ei drin yn gyfartal. Fodd bynnag, er ein bod yn deall ei phwyslais ar leihau tagfeydd, mae hefyd yn hanfodol bod prisio ffyrdd yn helpu i leihau gollyngiadau. Felly, rydym yn argymell bod yn rhaid i unrhyw gynllun prisio ffyrdd ystyried y pellter a gaiff ei deithio ac effeithlonrwydd cerbydau hefyd.

Atodiad

Un dyfodol - gwahanol lwybrau – Fframwaith cyffredin y DU ar gyfer datblygu cynaliadwy

Y Nod Fframwaith Newydd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

Nod datblygu cynaliadwy yw galluogi pawb ledled y byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwynhau ansawdd bywyd gwell heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol. I Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, caiff y nod hwnnw ei gyflawni mewn ffordd integredig drwy economi gynaliadwy, arloesol a chynhyrchiol sy'n sicrhau lefelau uchel o gyflogaeth, a chymdeithas deg sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, cymunedau cynaliadwy a lles personol. Gwneir hyn mewn ffyrdd sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ffisegol a naturiol, ac yn defnyddio adnoddau ac ynni mor effeithlon â phosibl. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth hyrwyddo dealltwriaeth glir o ddatblygu cynaliadwy, ac ymrwymiad iddo, fel y gall pawb gyfrannu at y nod cyffredinol drwy eu penderfyniadau unigol. Bydd amcanion tebyg yn llywio ein holl ymdrechion rhyngwladol, a bydd y DU yn mynd ati i hyrwyddo atebion amlochrog a chynaliadwy i'r problemau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol mwyaf dybryd heddiw. Mae rhwymedigaeth glir ar wledydd mwy ffyniannus i ymdrin â'r materion hyn yn eu gwledydd eu hunain yn ogystal â helpu gwledydd eraill i newid i greu byd mwy cyfiawn a chynaliadwy.

Datblygu Cynaliadwy - Pum egwyddor

Byw o fewn Terfynau Amgylcheddol
Parchu terfynau amgylchedd, adnoddau a bioamrywiaeth y blaned - er mwyn gwella ein hamgylchedd a sicrhau nad amherir ar yr adnoddau naturiol sydd eu hangen am fywyd a'u bod yn parhau felly ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Sicrhau Cymdeithas Gref, Iach a Theg
Diwallu anghenion amrywiol pawb mewn cymunedau presennol a chymunedau yn y dyfodol, hyrwyddo lles personol, cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol, a chreu cyfle cyfartal i bawb.

Sicrhau Economi Gynaliadwy
Datblygu economi gref, sefydlog a chynaliadwy sy'n darparu ffyniant a chyfleoedd i bawb, a lle y caiff y costau amgylcheddol a chymdeithasol eu talu gan y rhai sy'n eu hachosi (y llygrwr sy'n talu), a lle y rhoddir cymhellion ar gyfer y defnydd effeithlon o adnoddau.

Hyrwyddo Llywodraethu Da
Mynd ati i hyrwyddo systemau llywodraethu cyfranogol effeithiol ar bob lefel o gymdeithas - gan fanteisio ar greadigrwydd, egni ac amrywiaeth pobl.

Defnyddio Gwyddoniaeth Gadarn yn Gyfrifol
Sicrhau y caiff polisi ei ddatblygu a'i weithredu ar sail tystiolaeth wyddonol gref, tra'n ystyried ansicrwydd gwyddonol (drwy'r egwyddor ragofalus) yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd y cyhoedd.